# Fframwaith Adfywio Ardal Ni
CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL PWLLHELI



Ebrill 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer Ardal Pwllheli.




Ardaloedd Adfywio Lleol:
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes  - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD

Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cydberchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU ARDAL NI

03

Bwriad prosiect Ardal Ni oedd cynnal sgwrs a thrafod hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd a mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 14 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 257 o ymatebion o Ardal Pwllheli drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd :
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28  tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Awdurdod Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

CYNGOR GWYNEDD

Llŷn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# ARDAL PWLLHELI HEDDIW







Mae Ardal Pwllheli wedi ei leoli yn rhan gorllewinol o'r Sir, gyda thref arfordirol Pwllheli yn ganolfan bwysig i'r ardal. Mae'r ardal yn cynnwys cymunedau Pwllheli, Buan, Pistyll, Llanor, Llanystumdwy a Llanaelhaearn.

## Crynodeb Ardal Pwllheli mewn Ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **83.5** – disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **80.5** – disgwyliad oes dynion, yn uwch a'r ffigwr Cymreig o 78.3
- **2.01** – (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn is na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **13%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn is na chyfartaledd a Chymru (16%)
- **79%** - canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **77%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn uwch na'r ffigwr Gwynedd (65%) a Chymru (19%)

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **14.4%** - plant 4-5 oed sydd yn ordew sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **82.9%** - canran oedolion gyda chymhwyster sydd yn is na chyfartaledd Gwynedd (83%) ond uwch na Chymru (80%)
- **4.1%** swyddi gwerth uchel yn is na Gwynedd (11%) a Chymru (13%)
- **8%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn uwch chyfartaledd Cymru (3%) ond yn is na chyfartaledd Gwynedd (11%)
- **20.8%** - canran o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch tymor hir neu anabledd sydd yn uwch na 20.5% ar gyfer Gwynedd

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (189)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (133)
- Mae'n ardal ddiogel (126)
- Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon (113)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (84)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (79)
- Cyfleusterau lleol fel siopau, caffis a bwytai (77)
- Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal (75)
- Treftadaeth a hanes yr ardal (66)

### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?


- Dim cyfleoedd i gadw pobl ifanc yn yr ardal (122)
- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (109)
- Nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (86)
- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (79)
- Economi fregus - diffyg adnoddau lleol ac mae angen adfywio tref Pwllheli (70)
- Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem (58)
- Pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanfyddiad nad yw'r heddlu'n ddigon gweledol yn yr ardal (55)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni ardal Pwllheli. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*

# ARDAL PWLLHELI YMHEN 15 MLYNEDD



Mae’r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ‘Ardal Ni’. Mae’r materion wedi eu gosod yn y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda’r prif faterion wedi eu hamlygu gan iddynt gael eu hadnabod o leiaf 1 allan o 5 ymateb



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Pwllheli dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol eu prynu a’u rhentu | 119 |
| 2 | Cynlluniau i ddod ag adeiladau gwag yn nol i fewn i ddefnydd | 113 |
| 3 | Cynlluniau i gefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn lleol | 96 |
| 4 | Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf ac ail gartrefi | 93 |
| 5 | Datblygiad gwesty (cwmni cenedlaethol) ym Mhwllheli | 66 |
| 6 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 64 |
| 7 | Cynlluniau i gryfhau’r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | 63 |
| 8 | Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cerdded a llwybrau beicio’r ardal | 60 |
| 9 | Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'rpotensial economaidd i bobl leol | 54 |
| 10 | Presenoldeb mwy amlwg gan yr heddlu yn yr ardal | 52 |
| 11 | Cynlluniau i gadw cymunedau’r ardal yn lan a thaclus | 52 |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol eu prynu a'u rhentu** | 1.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 1.2 | Datblygiad safle Frondeg, Pwllheli | Adra | Partneriaeth Tai Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B2. Cynlluniau i ddod ag adeiladau gwag yn nol i fewn i ddefnydd** | 2.1 | Cynllun Y Tŵr | Menter y Tŵr | Sefydliadau a busnesau lleol, Cwmpas | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.2 | Pecyn eiddo gwag canol tref | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Grantiau (£5K - £25K) yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 2.3 | Datblygu Cynllun Canol Tref Pwllheli 'Creu Lle' | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Cyngor Tref Pwllheli | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.4 | Caban Heli | Plas Heli | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.5 | Cyn ysgol Llanaelhaearn | Antur Aelhaearn | Sefydliadau lleol, Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.6 | Adnewyddu Y Ganolfan Llithfaen | Cyngor Gwynedd | Cyngor Cymuned Pistyll | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B3. Cynlluniau i gefnogi busnesau lleol sefydlu a ffynnu ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn lleol** | 3.1 | Cynllun Datblygu Glandon / harbwr Pwllheli | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 3.2 | Gwynedd Lewyrchus – Cronfa Datblygu Busnes | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.3 | Tafarn y Plu Llanystumdwy | Menter y Plu | Mudiadau a busnesau | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3.4 | Becws Glanrhyd Llanaelhaearn | Antur Aelhaearn | Amrywiol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.5 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.6 | Fforwm Busnes Pwllheli | Grŵp yn cael ei sefydlu | Busnesau lleol a grwpiau cymunedol Pwllheli | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B4. Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf ac ail gartrefi** | 4.1 | Gwynedd Glyd - Premiwm Treth Cyngor | Cyngor Gwynedd | | Cynllun sirol sydd yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 4.2 | Peilot Ardal Dwyfor | Llywodraeth Cymru | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 4.3 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Cyngor Gwynedd | | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B5. Datblygiad gwesty (cwmni cenedlaethol) ym Mhwllheli** | 5.1 | Safle Cae Ceffyl, Pwllheli | Cyngor Gwynedd | Sector breifat | Rhagbaratoi | Bl 2 |
| **B6. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 6.1 | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Pwllheli | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 6.2 | Tirweddau cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 6.3 | GwyrddNi - Cynulliad newid hinsawdd Pen Llŷn | DEG | GwyrddNi, Ffrindiau Pwllheli | Gweithredol www.gwyrddni.cymru/ | Bl 1-2 |
| | 6.4 | Glan môr Trefor - Cadw traeth a'r arfordir rhag or-ddatblygu | Cymdeithas Pysgotwyr Trefor | Sefydliadau | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 6.5 | Gwasanaeth Trafnidiaeth Fflecsi Llŷn | O Ddrws i Ddrws | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneiriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6.6 | Hwb gwybodaeth ac inswleiddio tai | Ynni Llŷn | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 6.7 | Paneli solar - ar adeiladau y pentref | Antur Aelhaearn | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 6.8 | Cynllun Natur yn cynnwys Gardd Cymunedol | Ffrindiau Pwllheli | Cyngor Tref Pwllheli Ffederasiwn Bywyd Gwyllt y Byd, RSPB, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Co-op | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 6.9 | Perllan y fynwent a Phrosiect Gwenyn Mel | Antur Aelhaearn | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 6.10 | Lloches ddysgu Rhandiroedd y Plu | Menter y Plu | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1- 2 |
| | 6.11 | Paneli solar a storfa batri Capel Bach | Menter y Plu | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1- 2 |
| | 6.12 | Paneli solar a bws mini trydan | Clwb Pel Droed Pwllheli | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| B7.Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | 7.1 | Hwb Cefnogi Pobl | Cyngor Gwynedd | Canolfan Felin Fach | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 7.2 | Ail-ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos | Clwyd Alyn | Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 3 -5 |
| | 7.3 | Caffi Llithfaen | Hafod Ceiri | Bwrdd Iechyd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 7.4 | Cynllun Campfa Llanaelhaearn | Antur Aelhaearn | Meddygfa, Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 3 -5 |
| | 7.5 | Cynllun uwchraddio adeilad a Chynllun Caban | Canolfan Felin Fach | Bwrdd Iechyd | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 7.6 | Creu mynedfa hwylus i'r Hwb Cymunedol | Clwb Pêl-droed Pwllheli | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1 -2 |
| | 7.7 | Datblygu Cae Pêl Droed | Clwb Pêl-droed Llanystumdwy | FAW Cymru | Datblygol | Bl 1 - 2 |
| | 7.8 | Datblygu adeilad addas i'r Clwb | Clwb Chwaraeon Pwllheli | Clybiau chwaraeon | Datblygol | Bl 1 - 2 |
| | 7.9 | Hwb diwylliant yr Hendre | Seindorf Trefor | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 3 - 5 |
| | 7.10 | Adeiladu ar brosiect Cam Cynta | Cyfle Cyf | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1 -2 |
| | 7.11 | Adfywio Neuadd Abererch | Neuadd Abererch | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 1 - 2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B8. Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cerdded a llwybrau beicio'r ardal** | 8.1 | Teithio Llesol llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 8.2 | Cae Chwarae Rhydyclafdy | Pwyllgor Cae Chwarae | Cyngor Cymuned Buan | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.3 | Cae Chwarae Trefor | Clwb Chwaraeon yr Eifl | Canolfan Trefor | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B9. Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol** | 9.1 | Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Lleol | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.2 | Canolfan Ddehongli | Hafod Ceiri | Sefydliadau lleol, AHNE Llŷn | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 9.3 | Digwyddiadau Plas Heli | Plas Heli | Amryw | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 9.4 | Ecoamgueddfa Llŷn | Prifysgol Bangor / Eco amgueddfa | Prosiect Tirlun Llŷn, Cyngor Gwynedd Atyniadau treftadaeth | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.5 | Gofod perfformio / awditoriwm | Hafod Ceiri | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 9.6 | Cyn doiledau Llanaelhaearn | Antur Aelhaearn | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 9.7 | Moderneiddio Amgueddfa Lloyd George | Amgueddfa Lloyd George | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B10. Presenoldeb mwy amlwg gan yr heddlu yn yr ardal** | 10.1 | | | | | |
| **B11. Cynlluniau i gadw cymunedau'r ardal yn lan a thaclus** | 11.1 | Cymunedau Glan a Thaclus | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella Ardal Pwllheli. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn Ardal Pwllheli, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol yn cynnwys :

- Tafarn y Fic
- Hafod Ceiri
- Canolfan Llithfaen
- Siop Gymunedol Penygroes, Llithfaen
- Plas Heli
- Hafan Pwllheli
- Canolfan Nant Gwrtheyrn
- Canolfan Felin Fach
- Menter y Plu
- Tŷ Newydd Llanystumdwy
- Antur Aelhaearn
- Canolfan y Babell Llanaelhaearn
- Neuadd Llanystumdwy
- Canolfan Trefor
- Clwb Chwaraeon Pwllheli
- Clwb Pêl Droed Pwllheli
- Cae Chwarae Llithfaen
- Cae Chwarae Rhydyclafdy
- Grwp awyr agored Llŷn
- CHIPAC
- Sied Dynion Dwyfor
- Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl
- Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi
- Cymdeithas Chwaraeon Bro'r Eifl
- Cwmni Drama Llwyndyrus
- Seindorf Trefor
- Canolfan Llannor
- Cyngor Tref Pwllheli
- Cyngor Cymuned Buan
- Cyngor Cymuned Llannor
- Cyngor Cymuned Llanaelhaearn
- Cyngor Cymuned Llanystumdwy
- Cyngor Cymuned Pistyll
- Clwb Pêl Droed Llanystumdwy
- Neuadd y Ffôr
- Neuadd Chwilog
- Menter y Tŵr
- Rhan Pwllheli
- GwyrddNi
- Capel y Drindod